





ADRODDIAD

Gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2024-25

Cyllid a Thollau EF



Ni yw corff
gwarchod
annibynnol y
DU ar wariant
cyhoeddus.

Rydym yn cefnogi Senedd
y DU wrth ddwyn y
llywodraeth i gyfrif ac
rydym yn helpu i wella
gwasanaethau cyhoeddus
drwy ein harchwiliadau o
ansawdd uchel.

Mae'r ddogfen hon yn eiddo i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Cafodd y ddogfen ei pharatoi fel sail ar gyfer cyflwyno Adroddiad swyddogol i'r Senedd maes o law. Darperir y ddogfen hon yn gyfrinachol at ddibenion cadarnhau bod yr wybodaeth sydd ynddi yn gywir ac yn gyflawn ac er mwyn cael sylwadau ar y casgliadau dros dro sydd ynddi yn unig. Mae'n cynnwys gwybodaeth a gafwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o dan bwerau statudol at ddiben cyflawni swyddogaethau statudol yn unig.

Ni ddylid datgelu'r ddogfen na dim o'i chynnwys i unrhyw berson arall, oni bai bod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn awdurdodi datgeliad o'r fath. Rhaid diogelu'r ddogfen bob amser er mwyn ei hatal rhag cael ei chyhoeddi neu rhag unrhyw ddefnydd arall amhriodol o'i chynnwys. Gall ei datgelu heb awdurdod arwain at achos cyfreithiol.



National Audit Office

Gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2024-25

Cyllid a Thollau EF


Adroddiad gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Gorchynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin
i gael ei brintio ar 21 Ionawr 2026

Paratowyd yr adroddiad hwn o dan Adran 6 o Ddeddf
Archwilio Cenedlaethol 1983 i'w gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin
yn unol ag Adran 9 o'r Ddeddf

Cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag
Adran 116K o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i
diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014

Gareth Davies
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
15 Rhagfyr 2025



Mae'r deunydd sy'n ymddangos yn y ddogfen hon yn ddarostyngedig i hawlfraint y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO). Gellir copïo neu atgynhyrchu'r deunydd at ddibenion anfasnachol yn unig, sef atgynhyrchu ar gyfer ymchwil, astudiaeth breifat neu gylchrediad mewnol cyfyngedig o fewn sefydliad at ddibenion adolygu.

Mae copïo at ddibenion anfasnachol yn ddarostyngedig i gydnabyddiaeth ddigonol, wedi'i hatgynhyrchu'n gywir ac nad yw'n cael ei defnyddio mewn cyd-destun camarweiniol, gyda'r deunydd. I atgynhyrchu deunydd hawlfraint NAO am unrhyw ddefnydd arall, rhaid i chi gysylltu â copyright@nao.org.uk. Dywedwch wrthym pwy ydych chi, y sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli (os o gwbl) a sut a pham rydych chi'n dymuno defnyddio ein deunydd. Cofiwch gynnwys eich manylion cyswllt llawn: enw, cyfeiriad, rhif ffôn ac e-bost.

Sylwer na ellir atgynhyrchu'r deunydd sy'n ymddangos yn y ddogfen hon er budd masnachol heb ganiatâd penodol ac uniongyrchol yr NAO a bod yr NAO yn cadw'r hawl i ddilyn achosion torri hawlfraint yn erbyn unigolion neu gwmnïau sy'n atgynhyrchu deunydd ar gyfer budd masnachol heb ein caniatâd.

Roedd dolenni i wefannau allanol yn ddilys ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn. Nid yw'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gyfrifol am ddilysrwydd y dolenni yn y dyfodol.

Cynnwys

Crynodeb

Cyflwyniad 4

Rhan Un

Treth incwm a gesglir oddi
wrth drethdalwyr Cymreig 10

Rhan Dau

Gweinyddu treth incwm Cymru 16

Rhan Tri

Costau 30

Atodiad Un

Ein sail dystiolaeth 31

Gellir dod o hyd i'r adroddiad
hwn ar wefan y Swyddfa
Archwilio Genedlaethol yn
www.nao.org.uk

Os oes angen fersiwn o'r
adroddiad hwn arnoch mewn
fformat amgen am resymau
hygyrchedd, neu unrhyw un
o'r ffigurau mewn fformat
gwahanol, cysylltwch â'r
Swyddfa Archwilio Genedlaethol
ar enquiries@nao.org.uk

Roedd tîm astudiaeth y Swyddfa
Archwilio Genedlaethol
yn cynnwys:

Qasim Chaudhry, Olivia Crookall,
Shaurya Giri, Natalie Low,
Esther Namukasa, Rachel Riley
a Charlotte Smith, o dan
gyfarwyddyd Peter Morland.

Mae'r adroddiad hwn ar gael
ar wefan y Swyddfa Archwilio
Genedlaethol ar www.nao.org.uk

Am ragor o wybodaeth am y
Swyddfa Archwilio Genedlaethol
cysylltwch â:

National Audit Office
Press Office
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP

 020 7798 7400

 www.nao.org.uk

 @NAOorguk

Crynodeb

Cyflwyniad

1 Rhoddodd Deddf Cymru 2014 y grym i Senedd Cymru bennu'r cyfraddau (ac eithrio'r lwfans personol) sy'n cael eu talu gan drethdalwyr Cymreig ar bob incwm nad yw'n deillio o gynilion nac o ddifidendau, o 6 Ebrill 2019.

2 Ers mis Ebrill 2019, mae Llywodraeth y DU wedi gostwng cyfraddau treth incwm sylfaenol, uwch ac ychwanegol y DU 10 pwynt canran ar gyfer trethdalwyr Cymreig, ac mae'r Senedd wedi bod â'r grym i osod cyfraddau Cymru ar ben rhai'r DU. Ar gyfer pob band treth, y gyfradd treth incwm sy'n cael ei thalu yw cyfanswm cyfradd ostyngedig y DU a chyfradd Cymru a bennwyd ar gyfer y flwyddyn (**Ffigur 1**). Fel mewn blynyddoedd blaenorol, ar gyfer 2024-25, gosododd y Senedd gyfraddau treth incwm Cymru ar 10% ar draws pob band, a oedd yn golygu bod cyfanswm y cyfraddau ar gyfer trethdalwyr yng Nghymru yn cyfateb i gyfraddau Lloegr a Gogledd Iwerddon, sef 20% (cyfradd sylfaenol), 40% (cyfradd uwch) a 45% (cyfradd ychwanegol).

3 Yn yr adroddiad hwn, rydym yn disgrifio'r swm sy'n cael ei gasglu o dan gyfraddau treth incwm Cymru, sy'n cynrychioli tua 43% o gyfanswm y dreth incwm sy'n cael ei chasglu oddi wrth drethdalwyr Cymreig. Mae grant bloc adnoddau Llywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU yn cael ei ostwng gan y swm hwn, ac mae Trysorlys EF yn gyfrifol am dalu'r symiau hyn i Lywodraeth Cymru. Mae balans y cyfraniadau treth incwm sy'n weddill yn cael ei dalu i Lywodraeth y DU.

Rolau a chyfrifoldebau


4 Cyllid a Thollau EF (CThEF) sy'n gweinyddu ac yn casglu cyfraddau treth incwm Cymru fel rhan o system dreth y DU. Mae CThEF yn nodi trethdalwyr sy'n byw yng Nghymru drwy osod 'fflag' yn ei systemau sy'n nodi eu bod yn agored i gyfraddau treth incwm Cymru. Mae CThEF wedi cyfrifo bod 1.6 miliwn o drethdalwyr Cymreig yn 2023-24 (2022-23: 1.5 miliwn).

5 Ar ôl diwedd pob blwyddyn dreth, mae CThEF yn paratoi amcangyfrif dros dro o refeniw treth y flwyddyn honno o gyfraddau treth incwm Cymru. Mae'n cyfrifo'r alldro terfynol y flwyddyn ganlynol, ar ôl iddo gael rhagor o wybodaeth gan drethdalwyr a chyflogwyr. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r alldro terfynol ar gyfer 2023-24 a'r amcangyfrif dros dro ar gyfer 2024-25. Mae CThEF yn disgwyl cyhoeddi'r alldro ar gyfer 2024-25 yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2025-26 ym mis Gorffennaf 2026.

Ffigur 1

Cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2024-25

Yn 2024-25, gosododd y Senedd gyfradd treth incwm Cymru ar 10c yn y bunt, sy'n golygu bod trethdalwyr Cymru yn talu'r un cyfraddau treth incwm ar incwm nad yw'n deillio o gynilion nac o ddifidendau â threthdalwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon



Nodiadau

- Codir y gyfradd sylfaenol ar incwm rhwng £12,571 a £50,270; codir y gyfradd uwch ar incwm rhwng £50,271 a £125,140; a chodir y gyfradd ychwanegol ar incwm dros £125,140.
- Ar gyfer pob band treth (sylfaenol, uwch ac ychwanegol), mae Llywodraeth y DU yn gostwng swm y dreth y bydd yn ei gasglu 10 ceiniog fesul punt. Ar gyfer 2024-25, fe wnaeth y Senedd bennu cyfradd treth incwm Cymru ar 10 ceiniog, sy'n golygu bod trethdalwyr Cymru yn talu swm o dreth sy'n cyfateb i'r gyfradd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gyfer pob band treth.
- Mae lwfans personol y trethdalwr yn cael ei ostwng £1 am bob £2 o incwm net uwchlaw £100,000.

6 Mae Adran 116K o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014, yn mynnu bod Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (C&AG) y DU yn paratoi adroddiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y canlynol:

- pa mor ddigonol yw rheolau a gweithdrefnau CThEF, o ganlyniad i ddarpariaethau cyfraddau Cymru, i sicrhau bod y dreth incwm a godir ar gyfraddau sy'n cael eu pennu gan y darpariaethau hynny yn cael ei hasesu a'i chasglu'n briodol;
- a yw CThEF yn cydymffurfio â'r rheolau a'r gweithdrefnau hyn;
- cywirdeb y symiau a gafodd eu dwyn i gyfrif gan CThEF sy'n ymwneud â threth incwm y gellir ei phriodoli i gyfraddau Cymru;
- cywirdeb a thegwch y symiau a ad-dalwyd i CThEF fel treuliau gweinyddol.

7 Mae'r adroddiad hwn yn asesu'r canlynol:

- cyfrifiad CThEF o reffeniw cyfraddau treth incwm Cymru 2023-24 (yr 'alldro') a sicrwydd o ran cywirdeb y symiau sy'n cael eu dwyn i gyfrif (Rhan Un);
- amcangyfrif CThEF o reffeniw cyfraddau treth incwm Cymru 2024-25 a'n barn ar fethodoleg yr amcangyfrif (Rhan Un);
- rheolaethau allweddol sy'n cael eu gweithredu gan CThEF i asesu a chasglu treth incwm (Rhan Dau);
- dull CThEF o asesu a lliniaru'r risg o ddiffyg cydymffurfio â gofynion treth Cymru (Rhan Dau); a
- cost gweinyddu treth incwm Cymru. Rydym yn rhoi sicrwydd ynghylch cywirdeb a thegwch y symiau hyn yng nghyd-destun costau sy'n cael eu hysgwyddo gan CThEF (Rhan Tri).

8 Mae Atodiad Un yn nodi sylfaen dystiolaeth ein harchwiliad.

Y prif ganfyddiadau

Alldro terfynol cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2023-24 ac amcangyfrif ar gyfer 2024-25

9 Yn ôl cyfrifiadau CThEF, yr alldro terfynol ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru yn 2023-24 oedd £2,968 miliwn. Mae hyn yn cynrychioli'r symiau a gasglwyd o dan bolisi treth incwm Cymru. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 13.4% o'i gymharu ag alldro 2022-23. Fe wnaeth CThEF gyfrifo'r alldro ar sail y rhwymedigaethau treth sefydledig lle mae CThEF wedi nodi'r dreth sy'n ddyledus ac wedi cysoni cofnodion trethdalwyr yn llawn. Mae'r cyfrifiad yn cynnwys rhai achosion o amcangyfrif ac addasu, er enghraifft lle nad oedd CThEF wedi cael Ffurflenni Treth gan drethdalwyr eto neu lle nad oes gan CThEF ddata sy'n benodol i Gymru. Yn yr achosion hyn, gwnaethom werthuso sail amcangyfrifon CThEF, gan gynnwys y tybiaethau perthnasol a'r data a oedd ar gael. Roedd cyfanswm gros yr amcangyfrifon a'r addasiadau a gafodd eu gwneud gan CThEF yn cyfrif am 5.0% o'r alldro gros yn 2023-24 (2022-23: 5.6%). Ar sail ein gwaith archwilio, rydym wedi dod i'r casgliad bod alldro cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2023-24 wedi'i ddatgan yn deg (paragraffau 1.2 i 1.12 a Ffigur 2).

10 Mae CThEF wedi amcangyfrif bod y refeniw o gyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2024-25 yn £3,287 miliwn. Mae'r amcangyfrif y mae CThEF yn ei gynhyrchu at ddibenion adrodd ariannol yn ei gyfrifon blynyddol yn unig, ac nid yw'n effeithio ar swm y refeniw y mae Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn. Fodd bynnag, yn seiliedig ar y blynyddoedd diwethaf, mae amcangyfrif CThEF wedi'i brofi'n ddangosydd rhesymol o swm y dreth incwm sy'n debygol o gael ei gasglu oddi wrth drethdalwyr Cymru: roedd yr alldro yn 2023-24 £30 miliwn (1.0%) yn uwch nag amcangyfrif dros dro CThEF. Mae CThEF yn disgwyl cyfrifo'r alldro treth incwm terfynol ar gyfer 2024-25 y gellir ei briodoli i gyfraddau treth incwm Cymru erbyn mis Gorffennaf 2026 (paragraffau 1.13 i 1.16).

Gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru

11 Mae gan CThEF reolau a gweithdrefnau digonol ar waith i sicrhau bod cyfraddau treth incwm Cymru yn cael eu hasesu a'u casglu'n briodol, ac mae'n cydymffurfio â'r rheolau hynny. Mae ein gwaith ar dreth incwm Cymru yn adeiladu ar ein hasesiad ehangach o reolau a gweithdrefnau CThEF, a gwblhawyd fel rhan o'n harchwiliad blynyddol o CThEF. Fel rhan o'r archwiliad hwnnw, daethom i'r casgliad bod CThEF wedi llunio rheoliadau a gweithdrefnau digonol i sicrhau gwiriad effeithiol o'r broses o asesu refeniw, ei gasglu a'i ddyrannu'n briodol, a bod y rheoliadau a'r gweithdrefnau hyn yn cael eu gweithredu'n briodol (paragraffau 2.2 i 2.15).

12 Cadw cofnod cywir a chyflawn o gyfeiriadau trethdalwyr Cymru yw her allweddol CThEF wrth weinyddu'r system gan nad oes gan CThEF gronfa ddata ganolog ar gyfer adnabod preswylwyr Cymru. Mae CThEF yn dibynnu ar drethdalwyr neu gyflogwyr yn rhoi gwybod iddo am newid cyfeiriad, er nad oes gofyniad cyfreithiol iddynt wneud hynny. Mae'n ymgymryd ag amrywiol ymarferion i wirio cyfeiriadau, gan gynnwys y rhai a restrir isod.

- Roedd nifer y preswylwyr yng Nghymru oedd ag incwm trethadwy yn 2024-25 y canfuwyd bod ganddynt god post coll neu annilys drwy waith glanhau cyfeiriadau CThEF yn parhau i fod yn gymharol isel ar 709 (2023-24: 807). Dywedodd CThEF wrthym ei fod wedi diweddarau'r holl gofnodion hyn, fel rhan o'i waith sicrwydd.
- Yn ei ymarfer yn 2025 i gymharu'r cofnodion sydd ganddo o gyfeiriadau yng Nghymru â data trydydd parti, y data diweddaraf sydd ar gael, llwyddodd CThEF i baru 74.86% o'r cofnodion cyfeiriadau, sy'n uwch na'r 73.97% a barwyd yn 2023. Adolygodd CThEF y cofnodion na ellid eu dilysu gyda data trydydd parti a'u gwirio yn erbyn ei ffynonellau mewnol. Ar y cyfan, parodd CThEF 96.03% o'r cofnodion â chyfeiriad yng Nghymru gan ddefnyddio data trydydd parti neu ei ddata mewnol. Ni llwyddodd i ddod o hyd i gofnod cyfatebol yn y naill ffynhonnell na'r llall mewn 3.52% o'r achosion (paragraffau 2.17 i 2.26 a Ffigur 6).

13 Mae CThEF yn dal i asesu bod y risg o beidio â chydymffurfio mewn perthynas â chyfraddau treth incwm Cymru yn isel oherwydd nad oes gwahaniaeth rhwng cyfraddau treth Cymru a chyfraddau Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae CThEF yn cynhyrchu Darlun Strategol o Risg (SPR) ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru. Yn 2024-25, ystyriodd fod y prif risgiau i dreth incwm Cymru yr un fath â'r risgiau cydymffurfio hynny y mae'n eu hasesu ar lefel y DU gyfan. Yn yr SPR hwn, nid yw CThEF yn nodi bod unrhyw risgiau'n benodol i Gymru gan fod CThEF yn asesu bod y risg o ddiffyg cydymffurfio yng Nghymru yn gyson â gweddill y DU (paragraffau 2.27 a 2.28).

14 Fe wnaeth CThEF amcangyfrif £220 miliwn o arenillion cydymffurfiaeth yn 2023-24, yn seiliedig ar gyfran Cymru o risgiau cydymffurfiaeth y DU. Arenillion cydymffurfiaeth yw amcangyfrif CThEF o'r refeniw ychwanegol y mae wedi'i gynhyrchu trwy ei waith cydymffurfio, a'r colledion refeniw y mae wedi'u hatal. Dyma sut mae CThEF yn mesur effeithiolrwydd ei weithgareddau gorfodi a chydymffurfio. Amcangyfrifodd CThEF mai £430 miliwn oedd cyfran Cymru o'r colledion net o risgiau cydymffurfiaeth ar gyfer 2022-23, sef y data diweddaraf a oedd ar gael. Mae CThEF yn cyfrifo'r ffigurau hyn fel cyfran o ffigur cyfatebol y DU, yn hytrach na defnyddio data penodol i Gymru er mwyn meintio'r risgiau. Nid yw CThEF yn adrodd ar amrywiadau daearyddol rhwng Cymru a gweddill y DU wrth asesu risgiau i gydymffurfiaeth na llwyddiant cymharol gweithgarwch cydymffurfio (paragraffau 2.31 a 2.32).

Costau

15 Yn 2023-24, aeth CThEF i gostau o £0.38 miliwn wrth weinyddu cyfraddau treth incwm Cymru ac ailgododd dâl am hynny ar Lywodraeth Cymru. Gwnaethom archwilio'r ffordd roedd CThEF yn amcangyfrif costau casglu a gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025. Yn seiliedig ar ein gwaith archwilio, rydym wedi dod i'r casgliad bod y swm a dalwyd gan Lywodraeth Cymru yn gywir a theg yng nghyd-destun y cytundeb rhwng CThEF a Llywodraeth Cymru (paragraffau 3.4 a 3.5).

Rhan Un

Treth incwm a gesglir oddi wrth drethdalwyr Cymreig

1.1 Mae Rhan Un o'r adroddiad hwn yn cwmpasu cyfrifiad Cyllid a Thollau EF (CThEF) o'r alldro refeniw terfynol yn 2023-24, a'i amcangyfrif dros dro o refeniw cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2024-25. Mae hyn yn cynnwys cyfyngiadau data a dyfarniadau CThEF mewn meysydd lle y ceir ansicrwydd wrth gyfrifo'r alldro, a nodweddion a chyfyngiadau methodoleg CThEF wrth gyfrifo ei amcangyfrif dros dro.

Alldro terfynol cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2023-24

1.2 Mae CThEF wedi cyfrifo bod yr alldro cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2023-24 yn £2,968 miliwn. Mae CThEF yn defnyddio sawl cydran i gyfrifo'r ffigur alldro terfynol, ac mae'n cyfuno'r cydrannau hynny er mwyn cynhyrchu cyfanswm rhwymedigaeth cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2023-2024. Mae CThEF yn cyfrifo pob cydran gan ddefnyddio un neu fwy o ffynonellau data.

1.3 Mae'r alldro ar gyfer 2023-24 yn cynrychioli cynnydd o 13.4% o'i gymharu â 2022-23. Roedd yr alldro ar gyfer treth incwm nad yw'n deillio o gynilion nac o ddifidendau wedi cynyddu 10.1% ar gyfer gweddill y DU yn 2023-24. Priodolodd CThEF y twf uwch mewn refeniw o dreth incwm Cymru yn 2023-24 i effaith fwy amlwg o 'lusgiad cyllidol', gan nodi cynnydd mwy mewn bandiau incwm o tua £44,000 neu'n uwch yng Nghymru.¹

Cydrannau'r alldro

1.4 Mae CThEF yn cyfrifo'r alldro yn bennaf ar sail rhwymedigaethau treth sefydledig, tua £3,030 miliwn, lle mae CThEF wedi nodi'r dreth sy'n ddyledus ac wedi cysoni cofnodion trethdalwyr yn llawn. Mae CThEF yn cyfrifo'r rhwymedigaethau sefydledig ar sail y data terfynol ar rwymedigaeth treth yn y systemau treth incwm Talu Wrth Ennill (TWE) a Hunanasesiad.

¹ Mae'r hyn a elwir yn 'lusgiad cyllidol' yn cyfeirio at y sefyllfa lle mae refeniw treth yn cynyddu o ganlyniad i beidio â chynyddu ('rhewi') gwerth trothwyon treth. Mae hyn yn cynyddu incwm trethadwy pobl heb i gyfraddau treth gynyddu mewn gwirionedd ac yn arwain at refeniw ychwanegol i'r llywodraeth.

1.5 Mae CThEF yn gwneud addasiadau neu amcangyfrifon lle nad yw wedi cadarnhau'r dreth sy'n ddyledus eto, neu lle mae'n rhaid iddo amcangyfrif cyfran Cymru o symiau na ellir eu casglu neu ryddhadau treth. Y gostyngiad mewn alldro a ddeilliodd o'r addasiadau hyn oedd £62 miliwn (net) (**Ffigur 2** drosodd).² Mewn rhai rhannau o'r cyfrifiad, nid oes gan CThEF ddata digon manwl i nodi rhwymedigaethau treth incwm, rhyddhadau treth nac addasiadau eraill sy'n ymwneud â threthdalwyr unigol. Aeth CThEF ati i amcangyfrif cyfran Cymru o'r balansau hyn drwy ddefnyddio data eraill a oedd ar gael, fel data ar y boblogaeth ac incwm, er mwyn dosrannu'r balans rhwng Cymru a gweddill y DU. Roedd cyfanswm gros yr holl amcangyfrifon ac addasiadau a wnaed gan CThEF yn £161 miliwn yn 2023-24, neu 5.0% o'r alldro gros.³ Mae cyfran gyffredinol yr amcangyfrifon a'r addasiadau mewn perthynas â'r alldro gros yn parhau i fod yn gyson ar y cyfan â blynyddoedd blaenorol (5.6% yn 2022-23 a 5.9% yn 2021-22).^{4,5}

1.6 Yn unol â'r hyn y manylwyd arno yn adroddiad y llynedd, ym mis Gorffennaf 2024, adroddodd CThEF ar rai anghysondebau a nodwyd yn y ffigurau alldro a gyhoeddodd yn flaenorol mewn perthynas â threth incwm Cymru a'r trethi cyfatebol mewn rhannau eraill o'r DU.⁶ Rhwng 2019-20 a 2021-22, roedd hyn wedi golygu bod CThEF wedi gor-ddatgan yr alldro ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru gan £17 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd, neu 0.8% o'r alldro a adroddwyd yn flaenorol. Ers hynny, mae CThEF wedi diwygio ei gyfrifiadau alldro i ddileu'r cofnodion dyblyg ar gyfer pob un o'r blynyddoedd yr effeithir arnynt. Adroddodd CThEF fod y fethodoleg alldro wedi'i diwygio'n barhaol ers cyhoeddiad alldro 2022-23, er mwyn osgoi cyfrif rhai trethdalwyr ddwywaith. Fel y nodwyd yn adroddiad y llynedd, mae Trysorlys EF a Llywodraeth Cymru wedi cytuno nad oedd angen gwneud unrhyw addasiadau i symiau a dalwyd yn flaenorol i Lywodraeth Cymru.

2 Nid yw swm y rhwymedigaethau treth sefydledig a'r addasiadau net yn cyfateb yn union i'r alldro a gofnodwyd oherwydd bod rhai ffigurau wedi'u talgrynnu.

3 Mae'r cyfanswm gros hwn yn cynnwys rhwymedigaethau amcangyfrifedig o £59 miliwn, a £102 miliwn o ddiidyniadau. Mae amcangyfrifon ac addasiadau ar gyfer rhwymedigaethau Hunanasesiad a Thalu Wrth Ennill (TWE) yn cynnwys y symiau sy'n cael eu hychwanegu fel amcangyfrifon a'r symiau sy'n cael eu didynnu o'r refeniw, felly mae'r cyfanswm gros hwn yn uwch na chyfanswm y cydrannau unigol a gyflwynir yn Ffigur 2.

4 Ar gyfer adroddiad eleni, fe wnaethom adolygu ein methodoleg ar gyfer cyfrifo cyfran yr amcangyfrifon a'r addasiadau fel canran o'r alldro. Yn hytrach na defnyddio ffigur net yr alldro fel cyfenwador, rydym yn defnyddio'r alldro gros. Mae hwn yn tueddu i fod yn fwy, gan leihau'r amcangyfrif o ganlyniad. Fe wnaethom hefyd adolygu ein dull categorïddio o ran pa gydrannau a amcangyfrifwyd, ac fe wnaethom gael gwared ar rai o'r rhifiadur (er enghraifft, rhai rhyddhadau). Mae hyn hefyd yn lleihau'r amcangyfrif o'r gyfran. Gallai'r amcangyfrif hwn o'r gyfran a gyfrifwyd gan CThEF hefyd fod yn llai nag amcangyfrif y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, gan ei fod yn eithrio rhai elfennau pellach o'r rhifiadur fel rhai nad ydynt wedi'u hamcangyfrif.

5 Mae cyfanswm net yr amcangyfrifon a'r gwerthoedd wedi'u haddasu wedi bod yn gymharol sefydlog flwyddyn ar ôl blwyddyn (£62 miliwn yn 2023-24, £54 miliwn yn 2022-23, a £57 miliwn yn 2021-22).

6 Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, *Gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru 2023-24*, Sesiwn 2024-2025, HC 542, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Ionawr 2025.

Ffigur 2

Cyfrifiad Cyllid a Thollau EF (CThEF) o alldro refeniw cyfraddau treth incwm Cymru 2023-24

Mae'r mwyafrif o'r alldro yn seiliedig ar rwymedigaethau sefydledig ac mae cyfran fach wedi'i hamcangyfrif gan CThEF

	Alldro 2023-24			Alldro 2022-23		
	Symiau sefydledig	Amcangyfrifon ac addasiadau	Cyfanswm	Symiau sefydledig	Amcangyfrifon ac addasiadau	Cyfanswm
	(£mn)	(£mn)	(£mn)	(£mn)	(£mn)	(£mn)
Rhwymedigaethau Hunanasesiad	838	(15)	823	804	(12)	792
Rhwymedigaethau Talu Wrth Ennill (TWE)	2,192	2	2,194	1,868	(5)	1,864
Amcangyfrif o rwymedigaethau pellach	–	53	53	–	58	58
Didyniadau o refeniw	–	(102)	(102)	–	(95)	(95)
Cyfanswm	3,030	(62)	2,968	2,672	(54)	2,618

Nodiadau

- 1 Mae rhwymedigaethau treth sefydledig Hunanasesiad a TWE wedi'u seilio'n bennaf ar ddata rhwymedigaethau treth a ddelir gan CThEF, er bod rhai symiau wedi'u seilio ar amcangyfrifon hefyd.
- 2 Mae amcangyfrifon o rwymedigaethau pellach yn amcangyfrif gan CThEF o rwymedigaethau treth TWE nad ydynt wedi'u cadarnhau eto, a lle y disgwylir rhwymedigaethau treth o Ffurflenni Treth Hunanasesiad neu weithgarwch cydymffurfiaeth yn y dyfodol.
- 3 Mae didyniadau o refeniw yn cynnwys rhyddhad treth ar gyfraniadau pensiwn a Rhodd Cymorth ac amcangyfrif o gyfran y rhwymedigaethau treth ar ôl i gyflogwyr neu drethdalwyr fethu â thalu.
- 4 Mae rhifau a ddangosir mewn cromfachau yn rhifau negatif.
- 5 Efallai na fydd y ffigurau'n gwneud cyfanswm union oherwydd talgrynnu.

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ddata gan Gyllid a Thollau EF

1.7 Mae elfennau eraill methodoleg CThEF ar gyfer cyfrifo'r alldro wedi aros yr un fath fwy neu lai ers y flwyddyn flaenorol. Mae'r fethodoleg yn cynnwys rhai amcangyfrifon, er enghraifft lle nad oedd CThEF wedi cael Ffurflenni Treth gan drethdalwyr eto. Yn yr achosion hyn, gwnaethom werthuso sail amcangyfrifon CThEF, gan gynnwys y tybiaethau perthnasol a'r data a oedd ar gael. Ar sail ein gwaith archwilio ariannol, daethom i'r casgliad bod alldro cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2023-24 wedi'i ddatgan yn deg. Rydym yn disgrifio'r elfennau allweddol o'r modd y cyfrifwyd yr alldro yn fanylach isod.

Rhwymedigaethau Hunanasesiad

1.8 Mae cyfanswm y rhwymedigaethau Hunanasesiad o £838 miliwn yn cynrychioli'r holl gyfraddau treth incwm yng Nghymru y gellir eu priodoli i drethdalwyr Hunanasesiad Cymreig yn 2023-24. Mae CThEF yn nodi trethdalwyr Cymreig drwy ddefnyddio ei gofnod statws preswyl yng Nghymru yn ei system Amgylchedd Cyfrifiadurol ar gyfer Hunanasesiad (CESA). Mae cyfrifo rhwymedigaethau Hunanasesiad yn seiliedig yn bennaf ar gofnodion trethdalwyr Cymreig yn CESA. Roedd CThEF wedi didynnu £15 miliwn er mwyn amcangyfrif cyfran Cymru o falansau Hunanasesiad perthnasol eraill lle nad oes data penodol ar gael.⁷

Rhwymedigaethau Talu Wrth Ennill (TWE)

1.9 Mae cyfanswm y rhwymedigaeth TWE sefydledig o £2,192 miliwn yn cynrychioli'r holl gyfraddau treth incwm yng Nghymru y gellir eu priodoli i drethdalwyr TWE Cymreig yn 2023-24. O dan TWE, mae cyflogwyr yn cyflwyno data misol i CThEF ar yr enillion a'r didyniadau treth a wneir ar gyfer eu cyflogaion ac mae CThEF yn cofnodi'r wybodaeth hon ar ei system Gwasanaeth Yswiriant Gwladol a TWE (NPS). Mae CThEF yn nodi trethdalwyr Cymreig ar yr NPS drwy ddefnyddio dangosydd preswyl sy'n seiliedig ar wybodaeth am god post y trethdalwr. Mae CThEF yn nodi cyfanswm rhwymedigaethau treth incwm Cymru ar sail cofnodion trethdalwyr Cymreig yn yr NPS.

1.10 Mae mwyafrif y rhwymedigaethau TWE yn seiliedig ar ddata trethdalwyr Cymreig a geir o systemau CThEF, ond mae angen dosrannu elfennau eraill llai o faint hefyd. Arweiniodd swm yr addasiadau hyn yn 2023-24 at gynydd mewn rhwymedigaethau o £2 miliwn.⁸

⁷ Mae hyn yn cynnwys y canlynol: amcangyfrif o £3 miliwn, o rwymedigaethau ac asesiadau a gofnodwyd â llaw, lle nad oes cofnod o'r ffordd y mae'r rhwymedigaeth wedi'i rhannu rhwng trethi; addasiad o £2.7 miliwn ar gyfer cofnodion sensitif, nad yw CThEF yn eu defnyddio wrth gyfrifo cyfraddau treth incwm Cymru; a didyniad o £21 miliwn ar gyfer cyfran y rhyddhadau treth a hawlr drwy Hunanasesiad y gellir ei phriodoli i gyfraddau treth incwm Cymru, gan nad yw CThEF yn casglu data sy'n benodol i Gymru.

⁸ Mae hyn yn cynnwys didyniad o £4.6 miliwn ar gyfer cyfran y rhyddhadau treth a roddir yn erbyn rhwymedigaethau TWE y gellir ei phriodoli i gyfraddau treth incwm Cymru, gan nad yw CThEF yn casglu data sy'n benodol i Gymru. Mae CThEF hefyd wedi gwneud addasiad o £6 miliwn er mwyn dosrannu'r dreth y mae'n ei chasglu gan gyflogwyr o dan gytundebau setliad TWE. Mae'r cytundebau hyn yn caniatáu i gyflogwyr wneud un taliad blynyddol i gwmpasu'r holl dreth sy'n ddyledus ar fân dreuliau neu fuddiannau, neu dreuliau neu fuddiannau afreolaidd neu annichonol, ar gyfer cyflogwyr yn y cynllun. Gan fod rhwymedigaethau treth yn cael eu setlo drwy un taliad a wneir gan y cyflogwr, ni chaiff manylion trethdalwyr unigol eu cofnodi ac felly mae CThEF yn dadansoddi'r hyn a gyflwynir gan y cyflogwr er mwyn pennu cyfran Cymru o refferiw cytundebau setliad ledled y DU.

Amcangyfrif o rwymedigaethau pellach

1.11 Caiff y rhan fwyaf o'r rhwymedigaethau Hunanasesiad ar gyfer 2023-24 ei sefydlu cyn cyfrifo'r alldro. Serch hynny, mae CThEF yn gwybod o flynyddoedd blaenorol y bydd rhwymedigaethau trethi Hunanasesiad yn parhau i gael eu sefydlu a'u casglu am hyd at chwe blynedd yn ddiweddarach. Mae hyn oherwydd bod CThEF yn parhau i dderbyn gwybodaeth ychwanegol gan drethdalwyr a thrwy ei weithgarwch cydymffurfiaeth. Mae CThEF yn cyfrifo amcangyfrif o'r rhwymedigaeth ychwanegol ar gyfer yr elfennau hyn yn seiliedig ar berfformiad yn y gorffennol, gan amcangyfrif £53 miliwn yn alldro 2023-24.

Didyniadau oddi wrth reffeniw

1.12 Didynnodd CThEF gyfanswm o £102 miliwn oddi wrth y reffeniw alldro, sy'n cynnwys y canlynol.

- £17 miliwn ar gyfer rhwymedigaethau nad yw CThEF yn disgwyl eu casglu. Ni chaiff rhywfaint o rwymedigaethau treth incwm TWE a Hunanasesiad byth eu setlo oherwydd bod naill ai cyflogwyr neu drethdalwyr yn methu â thalu'r symiau llawn sy'n ddyledus. Mae CThEF yn dadansoddi data hanesyddol ar gyfer y DU gyfan er mwyn nodi patrymau o rwymedigaethau heb eu casglu ac yna mae'n dosrannu swm sy'n gysylltiedig â chyfraddau treth incwm Cymru.
- £51 miliwn mewn cyfraniadau pensiwn a £33 miliwn mewn Rhodd Cymorth, y mae rhyddhad treth incwm yn gymwys i'r ddau ohonynt ar gyfradd ymylol treth incwm y trethdalwr. Mae gweinyddwyr cynlluniau pensiwn yn hawlio rhyddhad treth ar y gyfradd sylfaenol gan CThEF ar ran aelodau o'u cynlluniau, ac mae elusennau yn hawlio rhyddhad treth ar y gyfradd sylfaenol gan CThEF ar ran eu rhoddwyr. Mae CThEF yn cyfrifo'r ddau ddiidyniad drwy ddefnyddio data hanesyddol i amcangyfrif cyfran Cymru o bob rhyddhad treth a hawliwyd ledled y DU.

Amcangyfrif dros dro o gyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2024-25

1.13 Mae CThEF yn amcangyfrif y bydd yn casglu £3,287 miliwn o reffeniw drwy gyfraddau Cymru mewn perthynas â blwyddyn 2024-25.⁹ Mae'r amcangyfrif dros dro hwn at ddibenion cyflwyno adroddiadau ariannol yn ei gyfrifon blynyddol yn unig. Nid yw'n effeithio ar swm y reffeniw y mae Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn. Fodd bynnag, mae'n darparu dangosydd defnyddiol, yn seiliedig ar brofiad hanesyddol o swm y dreth incwm sy'n debygol o gael ei chasglu oddi wrth drethdalwyr Cymreig. Ar gyfer 2023-24, roedd yr alldro £30 miliwn (1.0%) yn uwch nag amcangyfrif dros dro CThEF ar gyfer y flwyddyn honno.

9 Cyllid a Thollau EF, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024 i 2025*, HC 1039, Gorffennaf 2025.

1.14 Mae amcangyfrif dros dro 2024-25 o £3,287 miliwn yn awgrymu cynnydd o £319 miliwn (10.7%) o'i gymharu ag alldro 2023-24. Ar gyfer y DU yn gyffredinol, y cynnydd rhwng amcangyfrif dros dro 2024-25 ac alldro 2023-24 oedd 10.0%. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu cynnydd chwyddiannol mewn enillion, ynghyd â'r penderfyniad i rewi bandiau a throthwyon treth. Mae CThEF yn disgwyl cyhoeddi'r alldro terfynol ar gyfer y flwyddyn 2024-25 yn ei Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon ar gyfer 2025-26 erbyn mis Gorffennaf 2026.

1.15 Nid yw'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gan CThEF i amcangyfrif refeniw o gyfraddau treth incwm Cymru yn 2024-25 wedi newid rhyw lawer o'r hyn a ddefnyddiwyd i gyfrifo amcangyfrifon 2023-24. Mae methodoleg CThEF yn seiliedig ar ddata trethdalwyr o'i Arolwg o Incwm Personol (SPI). Roedd y data diweddaraf a oedd ar gael i CThEF yn deillio o Arolwg 2022-23 a lluniwyd yr amcangyfrif ar sail hynny. Yna, addasodd CThEF y data i adlewyrchu newidiadau demograffig a pholisi y mae'n disgwyl neu'n gwybod iddynt ddigwydd rhwng 2022-23 a 2024-25. Mae sampl yr SPI yn llai na 2% o drethdalwyr y DU, sy'n cyflwyno ansicrwydd samplu i'r amcangyfrif o refeniw. Mae hefyd yn cyfuno rhwymedigaethau TWE a rhwymedigaethau Hunanasesiad yn ei gyfrifiad, ac felly nid yw'n adlewyrchu cyfrannau gwahanol pob math o drethdalwr rhwng Cymru a gweddill y DU. Mae risg gynhenid hefyd na fydd data o 2022-23 yn adlewyrchu'r sylfaen trethdalwyr yn gywir ar gyfer 2024-25.

1.16 Fel rhan o'n gwaith archwilio ariannol, daeth ein hadolygiad o'r fethodoleg dros dro i'r casgliad bod dull CThEF yn rhesymol at ddibenion cynhyrchu'r amcangyfrif.

Rhan Dau

Gweinyddu treth incwm Cymru

2.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn cwmpasu'r canlynol:

- prosesau allweddol Cyllid a Thollau EF (CThEF) wrth weinyddu'r system treth incwm a'r ffordd rydym wedi cael sicrwydd arnynt;
- gweithdrefnau CThEF i nodi a chynnal cofnod cyflawn a chywir o'r boblogaeth o drethdalwyr Cymreig; a
- sut mae CThEF yn nodi risgiau i gydymffurfiaeth ac yn ymateb iddynt.

2.2 Mae CThEF yn defnyddio'r un systemau i weinyddu treth incwm p'un a ddaw o drethdalwr yng Nghymru neu weddill y DU. Fodd bynnag, mae CThEF yn gweithredu rheolau a gweithdrefnau ychwanegol i Gymru hefyd, ac rydym yn asesu'r rhain isod. Mae hyn yn adlewyrchu cyfrifoldeb CThEF i weinyddu treth incwm i drethdalwyr Cymreig yn yr un ffordd â'r gwasanaeth a ddarperir mewn rhannau eraill o'r DU.

2.3 O dan Adran 2 o Ddeddf y Trysorlys ac Adrannau Archwilio 1921, mae'n rhaid i Reolwr ac Archwilydd Cyffredinol (C&AG) y DU ystyried a yw systemau CThEF yn ddigonol i asesu a chasglu treth yn y DU, gan gynnwys treth incwm. Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi adroddiad (yr Adroddiad Safonol), ochr yn ochr ag Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon CThEF, sy'n nodi casgliadau'r C&AG yn hyn o beth. Yn ein Hadroddiad Safonol ar gyfer 2024-25, daethom i'r casgliad fod CThEF wedi llunio rheoliadau a gweithdrefnau digonol i sicrhau gwiriad effeithiol o'r broses o asesu, casglu a dyrannu refeniw'n briodol, a bod y rhain yn cael eu gweithredu'n briodol.

2.4 I ategu casgliadau'r adroddiad hwn, gwnaethom ymestyn ein profion ledled y DU i fynd i'r afael â risgiau a dulliau gweithredu sy'n berthnasol i weinyddu cyfraddau treth incwm Cymru. Gwnaethom hefyd gynnal gweithdrefnau penodol yn edrych ar weithgareddau glanhau cyfeiriadau a gwaith ehangach CThEF o ran cydymffurfiaeth dreth. Llywiodd y gweithgareddau hyn ein hasesiad o gyflawnder a chywirdeb amcangyfrifon CThEF o dreth incwm Cymru. Wrth ddod i'r casgliadau, gwnaethom archwilio sawl elfen o weinyddiaeth dreth ddatganoledig, megis gwaith parhaus CThEF o gynnal a chadw cofnodion trethdalwyr Cymreig, a'r ffordd y nododd y risgiau i gydymffurfiaeth trethi datganoledig, a'r ffordd yr ymatebodd iddynt.

Y system treth incwm

2.5 Mae system CThEF ar gyfer casglu treth incwm yn gyson ledled y DU. Yn dibynnu ar y math o incwm y mae unigolyn yn ei gael, caiff treth incwm ei hasesu a'i chasglu yn bennaf o dan y drefn Talu wrth Ennill (TWE), neu drwy Ffurflen Dreth Hunanasesiad a gyflwynir gan y trethdalwr, neu gyfuniad o'r ddau ddull hwn.¹⁰

2.6 Mae i'r prosesau TWE a Hunanasesiad egwyddorion cyffredin, er bod CThEF yn defnyddio systemau TG a ffynonellau data gwahanol er mwyn asesu a chasglu treth. Mae **Ffigur 3** drosodd yn nodi'r egwyddorion hyn ac yn disgrifio'r prif brosesau ar gyfer pob ffrwd treth incwm.

Sicrwydd ynghylch prosesu treth incwm

2.7 Mae ein rhaglen flynyddol o waith archwilio mewn perthynas â CThEF yn cynnwys gweithdrefnau sy'n rhoi sicrwydd ynghylch y rheolaethau allweddol wrth brosesu treth. Caiff y rheolaethau hyn eu rhannu'n fras yn ddau gategori:

- rheolaethau system awtomataidd o ran ymdrin â data, eu storio a'u prosesu; a
- rheolaethau busnes allweddol sy'n cynnwys lefel uchel o awtomatiaeth.

2.8 Yn dilyn diweddariadau blynyddol i reolau busnes er mwyn adlewyrchu newidiadau i gyfraddau treth, trothwyon a lwfansau ar gyfer y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig, mae CThEF yn cwblhau sawl cam o brofion sicrwydd ar reolaethau busnes allweddol er mwyn cadarnhau sut mae'r system yn gweithredu. Fel rhan o'n harchwiliad, rydym yn gwerthuso cwmpas y profion hyn ac yn ail-wneud elfennau o'r gwaith er mwyn cadarnhau casgliadau CThEF. Mae'r prif brosesau ar gyfer TWE yn cynnwys:


- cysoni gwybodaeth gan gyflogwyr â chofnodion treth personol bob blwyddyn er mwyn cadarnhau'r dreth sy'n ddyledus ar enillion a chyfrifo unrhyw achosion o ordalu neu dandalu treth ar sail y wlad breswyl; a
- rhoi codau treth ar gyfer trethdalwyr TWE bob blwyddyn sy'n cynnwys gwybodaeth am breswyliaeth er mwyn sicrhau bod cyflogwyr yn didynnu treth o dan reolau treth y wlad gywir.

2.9 Mae CThEF yn defnyddio prosesau tebyg gyda phob Ffurflen Dreth Hunanasesiad unigol a geir. Mae trethdalwyr Hunanasesiad yn gwneud taliadau ar gyfrif ac yn cyfrifo eu rhwymedigaeth treth eu hunain ar ddiwedd y flwyddyn gan ddefnyddio cyfrifiannell CThEF ar y Ffurflen Dreth a gyflwynir.

¹⁰ Mae CThEF hefyd yn defnyddio'r dull Asesiad Syml ar gyfer nifer fach o drethdalwyr, gan gyfrifo faint o dreth sydd arnynt gan ddefnyddio gwybodaeth sydd ganddo eisoes. Mae hyn yn berthnasol, er enghraifft, pan na all CThEF gasglu treth yn awtomatig drwy incwm neu pan fydd yn rhaid i rywun dalu treth ar bensiwn y wladwriaeth.

Ffigur 3
System treth incwm y DU

Mae'r prosesau Talu Wrth Ennill (TWE) a Hunanasesiad yn rhannu egwyddorion cyffredin o ran asesu a chasglu treth incwm



→ Cylch treth

Nodiadau

- 1 Nid yw prosesau TWE a Hunanasesiad yn digwydd ar yr un pryd. Caiff TWE ei phrosesu yn ystod y flwyddyn dreth (6 Ebrill i 5 Mawrth) a'i chysoni ar ôl diwedd y flwyddyn dreth. Ni chaiff Ffurflenni Treth Hunanasesiad eu cyflwyno tan fis Ionawr ar ôl diwedd y flwyddyn dreth.
- 2 Ar ôl diwedd y flwyddyn dreth, mae proses cysoni TWE CThEF yn cyfrifo'r rhwymedigaeth treth incwm ar gyfer pob trethdalwr gan ddefnyddio'r holl ddata sydd ar gael. Caiff y rhwymedigaeth a gyfrifwyd ei chymharu â'r symiau a ddidynnwyd wrth y ffynhonnell neu a gasglwyd oddi wrth drethdalwyr yn uniongyrchol i bennu p'un a gasglwyd y dreth gywir.

Treth incwm ddatganoledig

2.10 Y brif ffordd y mae'r broses o weinyddu treth incwm Cymru yn wahanol i brosesau'r DU yw'r rheolau busnes y mae system CThEF yn eu cymhwyso wrth gyfrifo rhwymedigaethau treth a chodau treth. Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i reolau'r system ers ein hadroddiad diwethaf a oedd yn cwmpasu 2023-24.

2.11 Mae trethdalwr Cymreig yn rhywun sydd â rhwymedigaeth treth ac y mae ei brif fan preswyl yn ystod y flwyddyn dreth yng Nghymru.^{11,12} Dyma'r rheolau y mae system CThEF yn eu cymhwyso ar gyfer trethdalwyr Cymreig:

- Mae'n gwirio statws preswyl yr unigolyn ac yn gosod y rhagddodiad cod treth 'C' pan nodir ei fod yn preswyl yng Nghymru. Mae hyn yn rhoi cyfarwyddyd i gyflogwyr gasglu treth o dan gyfraddau treth Cymru. Lle nad yw unigolyn yn preswyl yng Nghymru mwyach, mae'r system yn dileu'r rhagddodiad 'C'.
- Lle mae'r system yn nodi bod unigolyn yn preswyl yng Nghymru, mae'n cymhwyso cyfraddau a bandiau treth Cymru at yr incwm a nodwyd wrth gyfrifo'r rhwymedigaeth ar gyfer y flwyddyn dreth gyfredol. Mae trethdalwyr Cymru yn talu'r un cyfraddau treth incwm ar incwm nad yw'n deillio o gynilion nac o ddifidendau â threthdalwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.
- Os nodwyd bod unigolyn yn drethdalwr Cymreig a'i fod wedi'i gofrestru ar gynllun TWE, mae'r system yn defnyddio cyfraddau treth incwm Cymru i gyfrifo cod treth newydd ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

2.12 Mae Ffurflenni Treth Hunanasesiad yn cynnwys blwch ticio er mwyn i'r trethdalwr nodi a oeddent yn preswyl yng Nghymru yn ystod y flwyddyn dreth. Os yw'r hyn a nodir yn wahanol i gofnodion CThEF, bydd CThEF yn defnyddio'r cyfeiriad a ddeler ganddo i gyfrifo rhwymedigaeth treth y trethdalwr. Bydd CThEF yn hysbysu'r trethdalwr am yr anghysondeb ac yn gofyn iddo ddiweddar ei gyfeiriad os bydd angen. Nid yw CThEF yn casglu data ar nifer yr anghysondebau. Mae **Ffigur 4** drosodd yn dangos lle mae gwahaniaethu o'r fath yn digwydd yn y system treth incwm.


11 Mae CThEF yn defnyddio'r "prawf cyfrif diwrnodau" pan fydd gan unigolyn fwy nag un man preswyl a dim prif fan preswyl amlwg. Mae CThEF yn trin yr unigolyn fel trethdalwr Cymreig os yw'n treulio mwy o ddiwrnodau yng Nghymru na mewn unrhyw ran arall o'r DU.

12 Tybir yn awtomatig fod seneddwr Cymru yn drethdalwr Cymreig mewn unrhyw flwyddyn dreth tra byddant yn eu swydd, waeth ble maen nhw'n byw. Mae hyn yn berthnasol i aelodau etholedig Senedd Cymru ac Aelodau Seneddol yn San Steffan sy'n cynrychioli etholaethau yng Nghymru. Ar ôl i CThEF gofnodi Seneddwr Cymru fel trethdalwr Cymreig, bydd y system yn diystyru ei reolau busnes arferol yn awtomatig, ac yn ei gofnodi fel trethdalwr Cymreig bob amser nes i CThEF ailosod y swyddogaeth â llawar gyfer pob seneddwr. Dywedodd CThEF wrthym nad oedd wedi nodi unrhyw broblemau wrth gofnodi seneddwr Cymru fel trethdalwr Cymreig yn ystod 2024-25.

Ffigur 4

Sut mae system treth incwm y DU yn prosesu talwyr treth incwm Cymru

Mae rheolau busnes Cyllid a Thollau EF (CThEF) wedi'u llunio i brosesu treth incwm gan ddefnyddio'r cyfraddau a'r trothwyon sy'n berthnasol i statws preswyl trethdalwr



→ Cylch treth

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o brosesau Cyllid a Thollau EF

Rhyddhad treth ar gyfraniadau pensiwn

2.13 Rhaid i CThEF nodi trethdalwyr Cymreig er mwyn dyrannu'r rhyddhad treth yn gywir. Mae gweinyddwyr pensiynau yn hawlio rhyddhad treth wrth y ffynhonnell ar ran eu haelodau ac yn ychwanegu hyn at gyfraniadau eu haelodau. Mae CThEF yn rhoi rhyddhad treth ar gyfraniadau pensiwn ar y gyfradd sylfaenol o 20% i bob trethdalwr. Gall trethdalwyr Cymreig sy'n talu treth ar gyfradd uwch nag 20% hawlio'r rhyddhad treth sy'n weddill drwy Ffurflen Dreth Hunanasesiad neu drwy gysylltu â CThEF.

2.14 Er mwyn gweinyddu rhyddhad wrth y ffynhonnell, mae CThEF yn gofyn i bob gweinyddwr pensiwn gyflwyno datganiad gwybodaeth blynyddol sy'n darparu manylion eu haelodau a'u cyfraniadau pensiwn yn ystod y flwyddyn dreth flaenorol. Mae system Rhyddhad wrth y Ffynhonnell CThEF wedyn yn paru aelodau'r cynllun yn awtomatig â chyfeiriadau sydd gan CThEF ac yn cadarnhau statws preswyl aelodau o'r cynllun pensiwn i nodi trethdalwyr Cymreig a sicrhau bod y rhyddhad cywir wrth y ffynhonnell yn cael ei gymhwyso. Mae CThEF wedyn yn cyhoeddi adroddiad i bob gweinyddwr pensiwn yn cadarnhau statws preswyl eu haelodau. Cadarnhaodd CThEF statws preswyl ar gyfer 93% o aelodau cynlluniau pensiwn yn y DU yn dilyn blwyddyn dreth 2023-24, sef cyfran debyg i'r chwe blynedd ddiwethaf. Nid oes ffigur sy'n benodol i Gymru ar gyfer cyfran y statysau preswyl sydd wedi'u cadarnhau. Yn dilyn blwyddyn dreth 2023-24, cyhoeddodd CThEF Hysbysiad Blynyddol o Adroddiadau am Statws Preswyl ym mis Ionawr 2025.

Rhyddhad treth ar gyfraniadau Rhodd Cymorth

2.15 Mae CThEF yn rhoi rhyddhad treth ar gyfraniadau Rhodd Cymorth yng Nghymru ar gyfradd sylfaenol y DU, sef 20%. Y rheswm dros hyn yw nad oes gan CThEF systemau ar waith i nodi statws preswyl trethdalwyr sy'n cyfrannu at elusennau. Gall pob trethdalwr sy'n talu treth uwchlaw'r gyfradd sylfaenol hawlio'r gwahaniaeth rhwng ei gyfradd treth a'r gyfradd sylfaenol ar ei rodd. Pan wneir cyfraniadau gan drethdalwyr Cymreig, mae CThEF yn cymhwyso'r gyfradd gywir o ryddhad pan gaiff ei hysbysu o'r swm a roddwyd naill ai drwy gais i ddiwygio cod treth neu drwy Ffurflen Dreth Hunanasesiad.

Y boblogaeth o drethdalwyr Cymreig

2.16 Mae CThEF wedi cyfrifo bod 1.6 miliwn o drethdalwyr Cymreig yn 2023-24, sy'n gynnydd o 6.1% ers 2022-23 (gweddill y DU: 6.0%).¹³ Mae'r cynnydd yn nifer y trethdalwyr yn adlewyrchu bod y trothwy lwfans personol wedi'i rewi. Roedd trethdalwyr ar y gyfradd uwch a'r gyfradd ychwanegol yn cyfrif am 10.8% o'r boblogaeth a oedd yn talu treth incwm Cymru yn 2023-24 (o gymharu ag 9.4% yn 2022-23) a gwnaethant gyfrannu 46% o'r dreth incwm a dalwyd gan drethdalwyr Cymreig (o gymharu â 44% yn 2022-23). Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu'r penderfyniad i rewi trothwyon treth a'r ffaith bod trethdalwyr wedi symud i ddosbarthiadau treth uwch. Roedd trethdalwyr ar y gyfradd sylfaenol yn cyfrif am 89.2% o'r boblogaeth ac yn darparu bron i 54% o'r dreth incwm a dalwyd gan drethdalwyr Cymreig yn gyffredinol (**Ffigur 5**). Mae hyn wedi gostwng o 90.6% o drethdalwyr ac o 56% o'r dreth a dalwyd yn 2022-23. Yn fras, mae tuedd i drethdalwyr Cymreig ddilyn yr un patrwm a welir yng ngweddill y DU o ran nifer gynyddol o drethdalwyr a chyfran uwch o drethdalwyr sy'n talu o leiaf y gyfradd uwch sy'n cyfrif am gyfran fwy o'r refeniw treth incwm.

Sicrwydd ynghylch cyfeiriadau


2.17 Nid oes gan CThEF gronfa ddata ganolog ar gyfer nodi preswylwyr yng Nghymru yn benodol at ddiben treth. O ganlyniad, yr her o hyd i CThEF wrth weinyddu cyfraddau treth incwm Cymru yw cynnal cofnodion cywir a chyflawn o'r boblogaeth o drethdalwyr Cymreig. Mae CThEF yn ystyried gwybodaeth gan nifer o ffynonellau am newidiadau i gyfeiriadau, ond mae'n dibynnu'n bennaf ar drethdalwyr yn rhoi gwybod iddo am unrhyw newidiadau o'r fath yn brydlon, er nad oes gofyniad cyfreithiol i drethdalwyr wneud hynny. Mae CThEF hefyd yn cael gwybodaeth am gyfeiriadau o ffynonellau eraill fel cyflogwyr, er nad yw'n ofynnol i gyflogwyr roi diweddariadau pan fydd eu cyflogeion yn newid eu cyfeiriad. Yn 2024-25, atgyfnerthodd CThEF negeseuon allweddol am gyfraddau treth incwm Cymru drwy atgoffa unigolion i ddiweddarau manylion eu cyfeiriad drwy lwyfannau fel y cyfrif treth personol a chrynodebau treth blyneddol.

2.18 Mae'n rhaid i wybodaeth am gyfeiriadau fod yn gywir er mwyn sicrhau y caiff y swm cywir o dreth ei gasglu oddi wrth unigolion a'i ddyrannu i'r llywodraeth briodol. Mae gan CThEF sawl proses sicrwydd ar waith i gynnal data am gyfeiriadau sy'n gyflawn ac yn gywir. Dyma'r data y mae CThEF yn eu defnyddio i nodi trethdalwyr Cymreig (**Ffigur 6** ar dudalen 24).

Ffigur 5

Bandiau treth incwm Cymru yn ôl cyfran y trethdalwyr a chyfran y dreth incwm a dalwyd, 2020-21 i 2023-24

Roedd trethdalwyr ar y gyfradd sylfaenol yn cyfrif am fwy nag 89% o'r boblogaeth yn 2023-24, a gwnaethant gyfrannu 54% o'r dreth incwm a dalwyd



Nodyn

1 2023-24 yw'r flwyddyn ddiweddaraf y mae data ar gael ar ei chyfer.

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ddata gan Gyllid a Thollau EF

Ffigur 6
Sicrwydd ynghylch y boblogaeth o drethdalwyr Cymreig

Mae Cyllid a Thollau EF (CThEF) yn cynnal sawl gweithgaredd sicrwydd i gynnal sylfaen dreth yng Nghymru sy'n gyflawn a chywir

Gweithgaredd sicrwydd	Disgrifiad a diben	Canlyniadau
Rheolaethau sy'n sicrhau bod sefyllfa breswyl yng Nghymru yn cael ei phennu'n gywir gan ddefnyddio'r cyfeiriad sydd gan CThEF		
Codau post newydd	Mae cymharu rhestr CThEF o godau post Cymru â data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn sicrhau bod codau post yn gyfredol.	Mae CThEF yn cael data ar godau post bob chwarter oddi wrth yr ONS. Ychwanegodd CThEF 518 o godau post newydd yn 2024-25.
Glanhau cyfeiriadau	Sganiau o gofnodion trethdalwyr sydd gan CThEF i nodi codau post sydd ar goll neu sy'n annilys, a fyddai'n arwain at gymhwyso statws preswyl anghywir.	Nodwyd 61,310 o godau post sydd ar goll neu sy'n annilys drwy'r sganiau a gynhaliwyd yn 2024-25. Yn ôl CThEF, cafodd 709 o'r codau post hyn eu diweddarau oherwydd bod ganddynt gofnod o gyflogaeth gyfredol neu bensiwn. ¹
Codau post trawsffiniol	Mae systemau CThEF yn nodi newidiadau i gyfeiriadau pan fydd cyfeiriadau newydd mewn cod post sy'n croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Mae CThEF yn adolygu'r achosion hyn er mwyn sicrhau ei fod yn pennu'r statws preswyl cywir.	Yn 2024-25, adolygodd CThEF 468 o achosion trawsffiniol. Dywedodd CThEF wrthym ei fod wedi diwygio 102 o'r rhain yn dilyn ymchwiliad.
Fflagiau ar gyfer statws preswyl coll	Sganiau i nodi cofnodion trethdalwyr Cymreig na chânt eu fflagio fel cofnodion o'r fath yn y system.	Nododd sganiau CThEF 365 o achosion yn 2024-25. Dywedodd CThEF wrthym ei fod wedi diweddarau'r holl gofnodion.
Rheolaethau i fonitro sut mae cyflogwyr yn gweithredu Talu Wrth Ennill (TWE)		
Sganiau i gymharu codau treth	Cymharu codau treth mewn cyflwyniadau TWE â chofnod trethdalwyr CThEF, i nodi achosion lle mae'r cyflogwr yn cymhwyso cod treth gwahanol i'r hyn y mae CThEF yn ei ddefnyddio.	Ym mis Ebrill 2024, nododd CThEF 47,114 o achosion lle na chafodd y rhagddodiad 'C' ei ddefnyddio'n gywir ar godau treth. ² Ysgrifennodd at gyflogwyr i ofyn iddynt ddiweddarau'r codau treth anghywir.
Rheolaethau i nodi cyfeiriadau anghywir sydd gan CThEF		
Ymarfer sicrwydd data trydydd parti	Cymharu cofnodion cyfeiriadau trethdalwyr sydd gan CThEF â ffynonellau data trydydd parti i nodi achosion lle mae cofnodion CThEF yn anghyson â data trydydd parti. Yr ymarfer yw prif ffynhonnell CThEF o gael sicrwydd ynglŷn â chywirdeb ei gofnodion o ran cyfeiriadau.	Mae CThEF a Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gynnal yr ymarfer hwn bob dwy flynedd. Roedd yr ymarfer a gynhaliwyd yn 2025 yn cymharu 3.1 miliwn o gofnodion o ran cyfeiriadau yng Nghymru. Nododd CThEF 9,855 o gofnodion lle nad oedd y statws preswyl a bennwyd o'r cyfeiriad sydd gan CThEF yn cyfateb i'r statws preswyl a awgrymwyd gan y data trydydd parti. Ysgrifennodd CThEF lythyrau at yr unigolion perthnasol gan ofyn iddynt ddiweddarau eu cofnodion preswyl.
Unigolion cyfoethog	Mae CThEF yn cynnal gwiriadau a gweithdrefnau i adolygu symudiadau unigolion cyfoethog a sicrhau bod eu cyfeiriadau yn gyfredol (Nodyn 3). Mae timau arbenigol yn datblygu dealltwriaeth fanwl o gyllid, ymddygiad a risgiau cydymffurfio'r trethdalwyr hyn.	

Nodiadau

- Caiff codau post annilys eu cywiro neu eu diweddarau â llaw fel rhai Cymreig os na fydd yn bosibl pennu'r cod post cywir o'r cyfeiriad.
- Daw'r ffigurau o ddadansoddiad CThEF o sganiau codau treth misol ac maent yn dangos nifer y codau treth lle na chafodd y rhagddodiad 'C' Cymreig ei gymhwyso'n gywir, lle y byddai'r cod treth wedi bod yn gywir fel arall.
- Mae CThEF yn diffinio unigolion cyfoethog fel rhai sydd ag incwm o £200,000 neu fwy, neu oedd ag asedion a oedd yn cyfateb i £2 filiwn neu fwy yn unrhyw un o'r tair blynedd ddiwethaf.

Sganiau cod post

2.19 Mae CThEF yn sganio cofnodion trethdalwyr i nodi codau post sydd ar goll neu godau post annilys a fyddai'n arwain at ddefnyddio statws preswyl anghywir. Nododd sgan 2024-25 fod 61,310 o godau post naill ai ar goll neu'n annilys. Bydd CThEF yn ymchwilio i achosion lle roedd unigolion naill ai'n gyflogedig neu'n cael pensiwn, ac yn eu diweddarau. Yn 2024-25, diweddarodd CThEF 709 o gofnodion, o gymharu ag 807 yn 2023-24. Yn ôl CThEF, caiff achosion nad yw wedi'u diweddarau eu nodi fel rhai segur gan nad oes unrhyw incwm y mae'n rhaid talu treth arno ar hyn o bryd, ac felly nid oes unrhyw dreth incwm y gellir ei phriodoli i Gymru yn 2024-25.

Gweinyddu codau treth Cymru

2.20 Os na fydd cyflogwr yn rhoi'r rhagddodiad 'C' ar god treth cyflogai, bydd yn didynnu treth ar gyfradd Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ar ddiwedd y flwyddyn dreth, mae CThEF yn cysoni'r dreth y mae pob trethdalwr wedi'i thalu yn erbyn y dreth y mae'n credu y dylai fod wedi'i thalu. Yna, mae CThEF yn defnyddio'r wybodaeth derfynol hon a'r statws preswyl sydd ar ei system i gyfrifo rhwymedigaeth treth pob trethdalwr. Felly, nid oes effaith ar yr alldro ar gyfer Cymru os nad yw cyflogwr wedi gweithredu'r rhagddodiad 'C' yn gywir mewn cod treth unigolyn. Yn 2024-25, defnyddiodd CThEF fwletin y cyflogwr, diweddariadau i asiantau, rheolwyr cydymffurfiaeth cwsmeriaid, fforymau i gyflogwyr a'r gyflogres, GOV. UK, a'r cyfryngau cymdeithasol i bwysleisio pwysigrwydd defnyddio codau treth 'C' a anfonwyd gan CThEF yn gywir.

2.21 Bob mis mae CThEF yn cymharu codau treth ar gyflwyniadau TWE â'i gofnod trethdalwyr ei hun er mwyn canfod achosion lle mae cyflogwyr yn defnyddio cod treth gwahanol. Ym mis Ebrill 2024, roedd 47,114 o achosion (2.3% o'r achosion) lle nad oedd cyflogwyr yn defnyddio'r cod treth â'r rhagddodiad 'C'. Mae dull ehangach CThEF o ymdrin â chodau 'C' anghywir yn canolbwyntio ar atgoffa, addysgu a chynorthwyo cyflogwyr i ddefnyddio'r codau cywir, ailgyhoeddi codau lle bo angen, a chysylltu â chyflogwyr sy'n gwneud camgymeriadau'n aml i'w helpu i ddatrys y broblem. Dywedodd CThEF fod y strategaeth hon wedi lleihau cyfradd y camgymeriadau ar gyfer rhagddodiaid 'C' coll o tua 10% yn 2019-20 i tua 2.3% ym mis Ebrill 2024, a'i fod yn bwriadu parhau â'r gwaith hwn i gadw cyfradd y camgymeriadau yn isel.

2.22 Rydym wedi annog CThEF yn y gorffennol i gysylltu â chyflogwyr sy'n cofnodi codau treth anghywir, yn enwedig y rhai sy'n gwneud gwallau cyson. Ym mis Tachwedd 2024, ehangodd CThEF ystod ei adroddiadau i gynnwys nodweddion cyflogwyr sy'n defnyddio codau treth anghywir ac, ym mis Ionawr 2025, adroddodd ei fewnwelediadau cynnar i arferion y cyflogwyr o gymhwyso codau 'C'. Adroddodd CThEF fod mwy o gamgymeriadau gan fusnesau mawr a'r sector ariannol ac yswiriant. Mae'r rhan fwyaf o'r gwallau yn ymwneud â threthdalwyr ar y gyfradd isel yng Nghymru.^{14,15} Nododd CThEF hefyd pa gyflogwyr sydd â'r nifer fwyaf o gamgymeriadau yn y tair blynedd ddiwethaf, gyda chynlluniau i ymgysylltu'n uniongyrchol â dau gyflogwr sy'n parhau i gymhwyso codau 'C' yn anghywir. Roedd dadansoddiad cychwynnol CThEF yn dangos cysylltiadau posibl rhwng gwallau a thriniaeth trethdalwyr 'heb rwymedigaeth net', a chyfrifon â chod gwlad anghywir yn y gwasanaeth Yswiriant Gwladol a TWE.^{16,17} Mae CThEF yn bwriadu cynnal rhagor o ddadansoddiadau ac ymchwiliadau achos sylfaenol i fynd i'r afael â'r anghysondebau hyn a gwella cywirdeb gweithredu cod 'C' Cymru.

Ymarfer data trydydd parti

2.23 O bryd i'w gilydd mae CThEF yn cymharu cofnodion o gyfeiriadau'r trethdalwyr Cymreig y mae'n eu cadw â data trydydd parti i nodi gwahaniaethau. Y gymhariaeth hon yw prif ffynhonnell sicrwydd CThEF dros ei wybodaeth am gyfeiriadau, ac fe gytunodd yn flaenorol â Llywodraeth Cymru i gynnal yr ymarfer bob dwy flynedd.

2.24 Yn 2025, cymharwyd 3.1 miliwn o gofnodion sydd gan CThEF â data trydydd parti, gan ddangos y canlynol:

- bod 2.3 miliwn o gofnodion (74.86% o gofnodion a ddadansoddwyd, yn uwch na 73.97% yn 2023) sydd gan CThEF wedi'u paru'n llwyddiannus â data trydydd parti sydd â chyfeiriad Cymreig;
- bod gan 4,353 o gofnodion (0.14% o gofnodion a ddadansoddwyd) gyfeiriad mewn man arall yn y DU, yn ôl y data trydydd parti (yn is na 0.15% yn 2023);
- nad oedd modd cadarnhau statws preswyl trethdalwyr ar gyfer 0.8 miliwn o gofnodion (25.00% o'r cofnodion a ddadansoddwyd) drwy eu cymharu â data trydydd parti (yn is na 25.88% yn 2023).

14 Mae CThEF yn diffinio busnes mawr fel un sydd â 250 a mwy o gyflogeion.

15 Mae CThEF yn diffinio trethdalwr isel yng Nghymru fel unigolyn ag incwm trethadwy o £49,999 neu lai.

16 Mae CThEF yn diffinio trethdalwyr heb rwymedigaeth net fel yr unigolion hynny nad ydynt yn debygol o fod yn agored i dalu treth.

17 Y Gwasanaeth Yswiriant Gwladol a TWE (NPS) yw'r brif system a ddefnyddir gan CThEF i reoli cofnodion treth unigol. Mae CThEF yn pennu codau gwledydd, fel arfer ar sail cyfeiriad yr unigolyn, nid yn ôl y cyflogwyr.

2.25 Ar ôl hynny, adolygodd CThEF gofnodion heb eu paru yn erbyn ei ffynonellau data mewnol.

- Llwyddodd i baru 0.6 miliwn o gofnodion (83.43% o'r cofnodion nad oedd modd eu paru'n flaenorol, heb gynnwys copïau dyblyg, unigolion a fu farw, unigolion o dan 18 oed ac achosion tramor).
- Yn gyffredinol, cadarnhaodd CThEF 2.9 miliwn o gofnodion yn llwyddiannus, neu 96.03% o'r cofnodion a ddadansoddwyd (ac eithrio achosion anghymwys), ar gyfer cyfeiriad Cymreig gan ddefnyddio data trydydd parti neu ffynonellau data mewnol.
- Adroddodd hefyd, ar sail y gwaith cymharu â data trydydd parti neu ffynonellau data mewnol, fod 13,375 (0.44%) wedi'u nodi fel rhai â chyfeiriad yn rhywle arall yn y DU, tra nad oedd 106,425 (3.52%) o achosion wedi'u paru â'r naill ffynhonnell na'r llall, felly nid oedd modd cadarnhau'r statws preswyl.

2.26 Anfonodd CThEF lythyrau at y 9,855 o unigolion nad oedd eu manylion preswyl yn cyfateb i'r hyn a nodwyd gan ddata trydydd parti, ar sail cofnodion CThEF, a gofynnodd iddynt ddiweddarau eu cyfeiriadau. Dim ond cyfeiriadau sydd gan CThEF eisoes y gall eu defnyddio i gysylltu ag unigolion; ni all ysgrifennu i gyfeiriadau trydydd parti oherwydd cyfyngiadau data. Gan nad oes gan CThEF awdurdod cyfreithiol i orfodi trethdalwyr i ddiweddarau eu manylion, ni all gywiro cyfeiriad nad yw'n cyfateb, oni bai bod unigolyn yn ei hysbysu. Mae CThEF yn gweithio gyda'r darparwr data trydydd parti i archwilio ffyrdd o gael mynediad at gyfeiriadau trydydd parti ac, o bosibl, gywiro cofnodion nad ydynt yn cyfateb.

Asesu risg a gwaith cynllunio o ran cydymffurfiaeth

2.27 Mae CThEF yn defnyddio'r un dull o fesur cydymffurfiaeth ar sail risg i gasglu treth incwm yng Nghymru ag y mae'n ei ddefnyddio yng ngweddill y DU. Mae'r dull hwn yn cynnwys:

- hyrwyddo cydymffurfiaeth drwy ddylunio prosesau sy'n annog a helpu cwsmeriaid i gael pethau'n iawn y tro cyntaf;
- atal diffyg cydymffurfiaeth drwy waith dylunio prosesau a mewnwelediad gan gwsmeriaid, yn ogystal â chynnig cyfle i gywiro camgymeriadau; ac
- ymateb i risgiau o ran cydymffurfiaeth, ymchwilio iddynt a'u hunioni gan ddefnyddio gweithgarwch wedi'i deilwra pan fydd angen ymyrryd.

2.28 Fel rhan o'i Gytundeb Lefel Gwasanaeth â Llywodraeth Cymru, mae CThEF yn llunio Darlun Strategol o Risg (SPR) ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru yn flynyddol er mwyn asesu risgiau i gydymffurfiaeth sy'n berthnasol i Gymru a chynllunio ar eu cyfer. Mae hyn yn tynnu ar asesiad CThEF o risgiau cydymffurfio allweddol ar lefel gyffredinol yn y DU. Ar gyfer SPR Cymru, mae'n cymhwyso gwerth i gynrychioli cyfran Cymru o'r risgiau hyn, gan gyfrifo'r rhain yn unol â chyfran Cymru o dreth incwm y DU fel yr adroddwyd yn Ystadegau Alldro Treth Incwm Cymru. Nid yw CThEF yn amrywio maint y gyfran hon ar gyfer pob risg ac nid yw wedi profi ei dybiaeth bod faint o ddiffyg cydymffurfiaeth sydd yng Nghymru yr un peth â faint o ddiffyg cydymffurfiaeth sydd yng ngweddill y DU. Dywedodd y byddai heriau methodolegol a chostau sylweddol yn gysylltiedig â gwneud hynny. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, nid yw CThEF wedi nodi unrhyw risgiau sylweddol sy'n benodol i Gymru ac mae'n ystyried bod y prif risgiau i dreth incwm Cymru yr un fath â'r rhai ar gyfer y DU gyfan.¹⁸

Bwlch treth

2.29 Gallai CThEF feintio'r risgiau sy'n effeithio ar gyfraddau treth incwm Cymru yn fwy manwl gywir drwy fwch treth sy'n benodol i Gymru. Byddai hyn yn amcangyfrif y gwahaniaeth rhwng swm y dreth y dylai trethdalwyr Cymru fod wedi'i dalu a'r hyn a delir mewn gwirionedd. Nid yw CThEF yn nodi bwlch treth penodol i Gymru ar hyn o bryd. Mewn ymateb i adroddiad gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, nododd CThEF y byddai cyfrifo bwlch treth penodol i Gymru yn anodd am resymau methodolegol ac oherwydd lefel uchel yr ansicrwydd a fyddai'n gysylltiedig â dadansoddiad o'r fath.

Gweithgarwch CThEF o ran cydymffurfiaeth a rheoli dyledion

Gweithgarwch cydymffurfiaeth

2.30 Ar draws y DU, agorodd CThEF 333,000 o achosion yn ymwneud â chydymffurfiaeth yn 2024-25 (2023-24: 311,000), a chaeodd 316,000 (2023-24: 320,000). Ychydig iawn o wybodaeth sydd gan CThEF am faint o'r gweithgarwch cydymffurfiaeth hwn sy'n cael ei wneud yng Nghymru. Mae ei system gydymffurfiaeth yn galluogi CThEF i 'godi fflag' lle mae achos posibl o gamddefnyddio statws preswyl wedi'i nodi. Rydym ar ddeall nad oes unrhyw 'fflagiau' o'r fath ar y system gydymffurfiaeth ar hyn o bryd. Dywedodd CThEF wrthym fod angen chwilio systemau gwahanol am wybodaeth er mwyn deall nifer yr achosion gweithredol o ran cydymffurfiaeth sy'n ymwneud â threthdalwyr Cymreig, a hynny am resymau nad ydynt yn ymwneud â'u statws fel trethdalwyr Cymreig. Yn wahanol i'r system treth incwm, sy'n gallu fflagio preswylwyr Cymreig, nid yw system wybodaeth CThEF am waith rheoli cydymffurfiaeth yn gallu nodi pobl sy'n byw yng Nghymru yn hawdd, ac mae'n rhaid cymharu gwybodaeth â data eraill er mwyn nodi cyfanswm yr achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth yng Nghymru.

¹⁸ Mae'r risgiau cyffredinol y mae CThEF yn eu nodi ar lefel y DU yn cynnwys y canlynol: osgoi (lle mae unigolion neu fusnesau'n hepgor, yn cuddio neu'n camgyfleu gwybodaeth yn fwriadol i leihau eu rhwymedigaethau treth); yr economi gudd (lle nad yw incwm trethadwy'n cael ei ddatgan neu lle mae incwm datganedig yn cael ei danddatgan yn fwriadol); ac arbed treth (lle mae rheolau treth yn cael eu hecsbloetio i gael mantais treth nad oedd y Senedd erioed wedi'i bwriadu).

2.31 Mae CThEF yn mesur effeithiolrwydd ei weithgareddau gorfodi a chydymffurfiaeth drwy arenillion cydymffurfiaeth, ei amcangyfrif o'r refeniw ychwanegol y mae'n ystyried ei fod wedi'i gynhyrchu, a'r colledion y mae wedi'u hatal. Yn 2024-25, roedd arenillion CThEF o'i weithgareddau cydymffurfiaeth o ran treth ar gyfer y DU gyfan yn £48.0 biliwn, sef cynnydd o 14.9% o gymharu â 2023-24 (yng nghyd-destun arian). Roedd yr arenillion cydymffurfiaeth yn 2024-25 yn uwch na tharged CThEF o £45.4 biliwn.

2.32 Mae CThEF yn amcangyfrif £220 miliwn o arenillion cydymffurfiaeth yn 2023-24 o safbwynt cyfran Cymru o'r risg yn yr SPR. Mae CThEF hefyd wedi amcangyfrif mai £430 miliwn oedd cyfran Cymru o golledion net o'r risgiau yn yr SPR yn 2022-23. Dyma'r data diweddaraf sydd ar gael. Mae CThEF yn cyfrifo'r ffigurau hyn fel cyfran o ffigur cyfatebol y DU, yn hytrach na defnyddio data penodol i Gymru er mwyn meintio'r risgiau. Nid yw CThEF yn adrodd ar yr amrywiad daearyddol rhwng Cymru a gweddill y DU wrth asesu risgiau i gydymffurfiaeth na llwyddiant cymparol y gweithgarwch cydymffurfiaeth.

Rheoli dyledion

2.33 Mae'r ffordd y caiff dyledion treth eu rheoli gan CThEF yn effeithio ar faint o dreth incwm na chafodd ei thalu yn y lle cyntaf sydd wedyn yn cael ei chasglu ledled y DU, gan gynnwys yng Nghymru. Mae ffactorau allanol sy'n effeithio ar allu trethdalwyr i dalu'r dreth sydd arnynt, gan gynnwys pwysau chwyddiant presennol a chynnydd yng nghostau byw, ac mae hynny'n effeithio ar falans dyledion CThEF. Ar 31 Mawrth 2025, cyfanswm y dyledion treth ar gyfer y DU oedd £42.8 biliwn, sydd 0.5% (£0.2 biliwn) yn is na'r dyledion a gofnodwyd ar 31 Mawrth 2024. Er gwaethaf bod y ddyled dreth yn gostwng o gymharu â'r £68.5 biliwn a adroddwyd yng nghanol y pandemig, mae'n parhau i fod yn uwch nag yn y pum mlynedd yn arwain at y pandemig, pan oedd dyled dreth yn arfer bod tua £15 biliwn. Ym mis Ebrill 2025, cynhyrchodd CThEF amcangyfrif penodol i Gymru o ddyled dreth. Amcangyfrifodd fod cyfanswm y ddyled dreth mewn perthynas â threthdalwyr Cymru yn £1.3 biliwn, sef tua 3.1% o ddyled dreth y DU. Mae hon yn lefel debyg i gyfran Cymru o 3.6% o gyfanswm refeniw treth incwm y DU a amcangyfrifwyd ar gyfer 2024-25.

2.34 Ar ôl cwblhau'r gwaith ychwanegol hwn ar faterion treth datganoledig, rydym yn fodlon bod gan CThEF reolau a gweithdrefnau ar waith i asesu a chasglu treth incwm Cymru a'i fod yn cydymffurfio â nhw.

Rhan Tri

Costau

3.1 Mae'r rhan hon yn ystyried y costau gweinyddol yr oedd Cyllid a Thollau EF (CThEF) wedi anfonebu Llywodraeth Cymru amdanynt mewn perthynas â chyfraddau treth incwm Cymru, ac a yw'r costau hyn yn rhesymol.

3.2 O dan y Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng CThEF a Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ad-dalu costau ychwanegol net i CThEF am weinyddu pwerau treth incwm Cymru.

3.3 Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn nodi fframwaith y costau gweinyddol y mae CThEF yn ei ddefnyddio i ailgodi tâl ar Lywodraeth Cymru am weithredu cyfraddau treth incwm Cymru. Rhaid i'r costau fod yn "ychwanegol net", hynny yw, dim ond costau a ysgwyddwyd oherwydd gweinyddu pwerau treth incwm datganoledig Cymreig, ac nid costau gweinyddu'r system dreth incwm gyffredinol yng Nghymru. Mae'r fframwaith yn nodi'r hyn sy'n annog costau mawr megis cyswllt â chwsmeriaid, neu gynnal a chadw systemau a TG. Mae CThEF yn trosglwyddo cyfanswm cost y gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chyfraddau treth incwm Cymru i Lywodraeth Cymru, ynghyd ag adroddiadau ariannol misol, chwarterol a blyneddol.

Costau a ysgwyddwyd yn 2023-24

3.4 Yn 2024-25, fe wnaeth CThEF anfonebu Llywodraeth Cymru am £0.38 miliwn o gostau "ychwanegol net" yn ymwneud â gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru (2023-24: £0.43 miliwn). Roedd yr holl wariant yn ymwneud â chostau gweithredu. Roedd y costau a ysgwyddwyd yn 2024-25 islaw'r gyllideb o £0.48 miliwn. Y rheswm pennaf dros y tanwariant hwn yw'r ffaith bod staff CThEF wedi treulio llai o amser na'r disgwyl ar gyfraddau treth incwm Cymru. Yn ôl CThEF, ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i'r broses o ailgodi tâl yn 2024-25.

3.5 Gwnaethom archwilio'r ffordd roedd CThEF yn amcangyfrif costau casglu a gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025. Yn seiliedig ar ein gwaith archwilio, daethom i'r casgliad bod y swm a dalwyd gan Lywodraeth Cymru yn gywir a theg yng nghyd-destun y cytundeb rhwng CThEF a Llywodraeth Cymru.

Atodiad Un

Ein sail dystiolaeth

1 Mae Adran 116K o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014, yn mynnu bod Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (C&AG) y DU yn paratoi adroddiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y canlynol:

- pa mor ddigonol yw unrhyw reolau a gweithdrefnau y mae Cyllid a Thollau EF (CThEF) wedi eu rhoi ar waith, o ganlyniad i ddarpariaethau cyfraddau Cymru, i sicrhau bod y dreth incwm a godir ar gyfraddau sy'n cael eu pennu gan y darpariaethau hynny yn cael ei hasesu a'i chasglu'n briodol;
- a yw CThEF yn cydymffurfio â'r rheolau a'r gweithdrefnau hyn;
- cywirdeb y symiau a gafodd eu dwyn i gyfrif gan CThEF sy'n ymwneud â threth incwm y gellir ei phriodoli i gyfraddau Cymru; a
- cywirdeb a thegwch y symiau a ad-delir i CThEF fel treuliau gweinyddol.

2 Er mwyn dod i'r casgliadau a nodwyd yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â'r rheolau a'r gweithdrefnau a weithredir gan CThEF, gwnaethom ddefnyddio ein gwaith archwilio statudol ar Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon CThEF yn uniongyrchol, gan gynnwys adroddiad C&AG y DU ar reolaethau CThEF ar gyfer asesu, casglu a dyrannu treth yn briodol o dan Adran 2 o Ddeddf y Trysorlys ac Adrannau Archwilio 1921. Gwnaethom hefyd gwblhau gweithdrefnau archwilio penodol dros reolaethau sy'n berthnasol i'r broses o weinyddu trethi datganoledig.

3 Cynhaliwyd ein gwaith maes ar gyfer yr adroddiad hwn rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2025.

Archwiliad ariannol

4 Gwnaethom archwilio'r data, y methodolegau, y tybiaethau a mecanwaith cyfrifo'r alldro refeniw ar gyfer 2023-24 a'r refeniw amcangyfrifedig ar gyfer 2024-25, a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn. Ar gyfer yr amcangyfrif, a'r alldro lle y bo'n briodol, gwnaethom gymhwyso'r egwyddorion a nodir yn Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) 540: Archwilio Amcangyfrifon Cyfrifyddu a Datgeliadau Cysylltiedig, er mwyn llunio gweithdrefnau archwilio sy'n berthnasol i natur yr amcangyfrifon ac ar lefel ddigon manwl.

5 O ran costau gweinyddu, roedd ein casgliad ynglŷn â chywirdeb a thegwch costau CThEF a godwyd ar Lywodraeth Cymru wedi'i seilio ar werthusiad o'r costau yn erbyn manylion y Cytundeb Lefel Gwasanaeth a'r fframwaith ategol ar gyfer costau y cytunwyd arnynt rhwng y ddau barti. Amcangyfrifodd CThEF rai o'r costau a ysgwyddwyd ar sail y data oedd ar gael ynghylch cysylltiadau cwsmeriaid ac amser staff. Yn ystod yr archwiliad, gwelsom dystiolaeth hefyd fod y ddau barti yn trafod ac yn adolygu cyllidebau a rhagolygon costau yn rheolaidd, yn ogystal â chytuno ar unrhyw symiau i'w hanfonebu a'u talu.

6 Cafodd yr holl weithdrefnau archwilio hyn eu cynllunio, eu cyflawni a'u hadolygu yn unol â'n gweithdrefnau rheoli ansawdd mewnol ar gyfer gwaith archwilio ariannol.

Adolygu dogfennau

7 Er mwyn gwerthuso'r ffordd y mae CThEF yn ymdrin â risgiau i gydymffurfiaeth, adolygwyd dogfennau cyhoeddedig ac anghyhoeddedig CThEF ynglŷn â chyfraddau treth incwm Cymru, gan gynnwys dogfennaeth brosiect, dogfennaeth risg a chydymffurfiaeth, a manylion gwaith sicrwydd allweddol a wnaed gan CThEF.

Cyfweliadau â swyddogion adrannol

8 Cynhaliwyd pedwar cyfweliad â swyddogion CThEF, a ddewiswyd i gymryd rhan oherwydd eu swyddi ac am eu bod yn berthnasol i'r archwiliad. Roedd hyn yn cynnwys staff a oedd yn gyfrifol am bolisi treth datganoledig a chydymffurfiaeth â threth (neu a oedd yn ymwneud â'r meysydd hynny).

9 Gwnaethom hefyd siarad â Llywodraeth Cymru i lywio ein hasesiad o risg a'n gwaith cynllunio ar gyfer yr adroddiad hwn.

10 Cynhaliwyd y cyfweliadau ar-lein. Gwnaethant bara awr ar gyfartaledd a chymerwyd nodiadau.

Dadansoddi meintiol

11 Gwnaethom ddadansoddi data ariannol CThEF ar reffeniw treth incwm Cymru, amcangyfrif CThEF o reffeniw treth incwm Cymru, a chostau gweinyddol cyfraddau treth incwm Cymru.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i argaffu ar Evolution Digital Satin ac mae'n cynnwys deunydd a geir o goedwigoedd cynaliadwy sy'n cael eu rheoli'n gyfrifol ac sydd wedi'u hardystio yn unol â'r FSC (Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd).

Mae'r mwydion coed yn hollol ailgylchadwy ac yn rhydd o asid. Mae gan ein hargraffwyr hefyd achrediad amgylcheddol ISO14001 llawn, sy'n sicrhau bod ganddynt weithdrefnau effeithiol ar waith i reoli gwastraff ac arferion a all effeithio ar yr amgylchedd.



National Audit Office

Dylunio a Chynhyrchu gan Dîm Cyfathrebu NAO
DP Ref: 014864-001

£10.00

ISBN: 978-1-78604-653-6